Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cymru Iachach – Cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

## Adroddiad Blynyddol – beth rydyn ni wedi ei gyflawni yn 2023 i 2024

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymru Iachach – Strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru 2023 i 2024: Cyflawni yn ystod cyfnodau heriol**'.

**Gorffennaf 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma'n hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **print glas trwm** yn anodd ei deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 29**.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.gofalcymdeithasol.cymru

**E-bost:** ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am beth mae'r adroddiad yma'n sôn** .......... **4**

**Beth rydyn ni wedi ei gyflawni** .......... **6**

1. Gweithlu hapus ac iach sy'n cymryd rhan .......... 6
2. Denu staff newydd .......... 10
3. Ffyrdd o weithio .......... 13
4. Cefnogi staff i weithio ar-lein .......... 16
5. Addysg a hyfforddiant .......... 19
6. Arweinyddiaeth a rheolaeth .......... 22
7. Y gweithlu .......... 24

**Beth sy'n digwydd nesaf** .......... **27**

**Geiriau anodd** .......... **29**

# Am beth mae'r adroddiad yma'n sôn

**Gofal Cymdeithasol Cymru** ydyn ni.



Ein gwaith ydy gwneud yn siŵr bod staff sy'n gweithio mewn **gofal cymdeithasol**:

- yn gwneud eu gwaith yn dda
- ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny.



Gwasanaethau ydy **gofal cymdeithasol** sy'n helpu pobl â'u bywyd bob dydd. Gall fod yn help yn y cartref, mewn canolfan dydd neu'n help gan weithiwr cymdeithasol.




Ysgrifennon ni gynllun gydag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)** yn 2020. Cafodd ei alw'n Cymru Iachach - Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.




Mae’r adroddiad yma am beth rydyn ni wedi ei gyflawni tuag at y cynllun yma o Ebrill 2023 i Fawrth 2024.



Mae llawer o faterion anodd wedi bod gydag iechyd a gofal cymdeithasol. Ond mae pethau’n gwella.




Mae cynlluniau penodol yn eu lle hefyd. Maen nhw’n cael eu galw’n:

- Cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol
- Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol



Rydyn ni wedi gwneud cynnydd â gwaith yn y cynlluniau hyn hefyd. Byddwn yn siarad am beth o’r gwaith hwn yma.

# Beth rydyn ni wedi ei gyflawni

## 1. Gweithlu hapus ac iach sy’n cymryd rhan

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**



- Rannu’r ffyrdd gorau o weithio a rhannu adnoddau. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi ei gilydd

Canopi

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am wasanaeth cymorth iechyd meddwl sy’n cael ei alw’n Canopi.

**Rhai o’r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**



- Tudalennau gwe newydd ynglŷn â **llesiant.**

> Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â’u bywyd a’r pethau maen nhw’n eu gwneud.




- Dweud wrth fwy o bobl am ein [ffframwaith iechyd a llesiant.]



- Gwneud gwaith i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.



- Rhoi cefnogaeth a hyfforddiant i reolwyr a phobl eraill.




- Cael digwyddiad ynglŷn â **llesiant**.




- Gwneud mwy o waith i gefnogi'r iaith Gymraeg.




- Rhannu gwybodaeth am beth roedd staff yn ei feddwl ynglŷn â gweithio mewn gofal cymdeithasol.



- Cael seremoni o'r enw **Y Gwobrau** i helpu i gydnabod y gwaith pwysig  mae staff yn ei wneud.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**




Gael dau ddigwyddiad i ddod â phobl at ei gilydd i:

- siarad am lesiant
- rhannu'r pethau sy'n gweithio'n dda mewn gofal cymdeithasol
- a rhannu eu syniadau.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Gefnogi grwpiau cyfoedion sy'n gwella **llesiant.**



- Cefnogi **llesiant** rheolwyr trwy ddigwyddiadau.




- Creu dysgu am **lesiant** ar-lein.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**




- Gael digwyddiadau ynglŷn â'r ffordd y mae staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi.

## 2. Denu staff newydd

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**



- Weithio fel rhan o grŵp i helpu i hyrwyddo gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



- Dal ati i ddatblygu'r wefan sy'n cael ei alw'n Dregyrfa. Mae hon yn wefan gyda swyddi mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

**Rhai o'r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**



- Ceisio cael staff gofal cymdeithasol newydd o amrywiaeth o gefndiroedd.



- Cefnogi'r defnydd o **brentisiaethau**.

  **Prentisiaethau** ydy pan fydd rhywun yn dysgu yn y gwaith ac yn cael cymhwyster.




- Lansio'r wefan newydd a phorth swyddi [Gofalwn Cymru](). Mae hon yn wefan gefnogaeth ar gyfer staff a'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno â'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.



- Gwneud ymchwil i weithio mewn gofal cymdeithasol.




- Gwneud mwy o waith i wneud yn siŵr ein bod yn cael staff sy'n medru siarad Cymraeg.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Rannu gwybodaeth am weithio fel gweithiwr cymdeithasol yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am **fwrsari** gwaith cymdeithasol.

> **Bwrsari** ydy arian i helpu pobl â chostau gwneud cymhwyster.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Gael hyfforddiant o'r enw Cyflwyniad I ofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**




- Ceisio recriwtio staff iechyd meddwl newydd drwy'r teledu, cyfryngau cymdeithasol a'r radio.

## 3. Ffyrdd o weithio

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**




- Gynnig hyfforddiant nyrsio i staff cartrefi gofal.



- Creu hyfforddiant ynglŷn â gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd.

**Rhai o'r pethau y wnaethom ni eu cyflawni oedd:**




- Cymryd rhan yng ngwaith **Cynllun Gweithredu Strategol ar Anabledd Dysgu**. Mae'r cynllun yma'n ymwneud â gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.



- Cymryd rhan yng ngwaith y llywodraeth.



- Cefnogi gwaith **ail-alluogi.**


> Mae **ail-alluogi** yn ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu sgiliau i fod yn annibynnol. Weithiau efallai bod pobl wedi colli rhai sgiliau oherwydd newid yn eu hiechyd.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Barhau i ddod a phobl sy'n ymwneud â gwaith cymdeithasol at ei gilydd i rannu pethau sy'n gweithio'n dda a'u syniadau.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Barhau i weithio â mudiadau eraill i wella hyfforddiant mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**



- Barhau i ddod â phobl sy’n gweithio ym maes Iechyd Meddwl at ei gilydd i rannu’r pethau sy’n gweithio’n dda a’u syniadau.

# 4. Cefnogi staff i weithio ar-lein

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**

- Gefnogi gwefan sy'n cael ei alw'n Gwella. Mae hyn yn ymwneud â dysgu a chyfleoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



- Gweithio gyda mudiadau eraill i ddatblygu mwy o ddysgu ar-lein.

**Rhai o'r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**




- Datblygu ac ychwanegu gwahanol adnoddau dysgu ar-lein.



- Helpu i wella gweithio digidol a gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol. Mae hyn yn meddwl y gwnaethom ni helpu i wella gwasanaethau cyfrifiadurol a gwasanaethau ar-lein.



- Gwneud ymchwil i'r ffordd y mae pobl yn defnyddio technoleg i wneud pethau'n well. A beth arall sydd ei angen.



- Ymuno â grŵp sy'n cael ei alw'n **Comisiwn AI ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae hwn ynglŷn â sut y gall **deallusrwydd artiffisial (AI)** gael ei ddefnyddio i wella gofal cymdeithasol.

> Mae **deallusrwydd artiffisial (AI)** yn meddwl cyfrifiaduron yn gwneud pethau cymhleth nad oedd neb ond pobl yn medru eu gwneud o'r blaen.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Barhau i weithio gyda phobl eraill i feddwl sut y gall technoleg helpu gwaith cymdeithasol

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Helpu i ddatblygu e-ddysgu i helpu staff i reoli meddyginiaeth.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**




- Greu ap i helpu pobl sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl ag asesiadau

## 5. Addysg a hyfforddiant

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**



- Helpu i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer staff newydd.

**Rhai o'r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**



- Bod yn rhan o rediad grant ar gyfer datblygu gweithwyr gofal cymdeithasol.



- Cefnogi cael cymwysterau mewn iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u gosod yn eu lle.




- Cefnogi dysgu yn y Gymraeg.




- Helpu i gychwyn cwrs ar-lein i ddysgu Cymraeg, sy'n cael ei alw'n Camau.




- Helpu i wneud cynllun hyfforddi ynglŷn â chadw pobl yn ddiogel.



- Cefnogi dysgu ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda gofalwyr.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Gefnogi rhai myfyrwyr gwaith cymdeithasol i gael ffïoedd eu cyrsiau wedi eu talu.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Gwneud mwy o gyfleoedd dysgu wrth wneud y swydd. Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn helpu mwy o bobl wneud cais am swyddi ac aros ynddyn nhw.



- Datblygu canllawiau i helpu staff sy'n gweithio yn y nos mewn gwasanaethau plant.



- Gweithio gyda phobl eraill i feddwl sut y mae adnoddau **Sgiliau Hanfodol Cymru** yn cael eu defnyddio. A sut mae'n cael ei ddysgu mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**



- Roi hyfforddiant i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl ynglŷn â chefnogi pobl i ddod o hyd i atebioni'w pro blemau.

## 6. Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**



- Helpu pobl i feddwl am bwysigrwydd bod yn garedig mewn swyddi arweinyddiaeth.

Gwella

- Cael hyfforddiant a gwybodaeth am hyn ar Gwella. Mae hwn yn borth dysgu ar-lein.

**Rhai o’r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**



- Cael cyrsiau hyfforddi ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr.



- Edrych i mewn i ffyrdd o gefnogi arweinwyr o gefndiroedd amrywiol. Mae hyn yn meddwl pobl o liw a grwpiau ethnig eraill.

- Parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Gynnal sesiynau dysgu i helpu pobl gael sgyrsiau sy'n anodd.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**



- Gefnogi grwpiau o reolwyr i weithio gyda'i gilydd i gefnogi ei gilydd. Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n **gefnogaeth gan gyfoedion**.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**



- Greu rhaglen hyfforddi newydd ar gyfer rheolwyr yn gweithio ym maes iechyd meddwl.

# 7. Y gweithlu




**Gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gwnaethom ni:**

- Greu canllaw i helpu pobl i feddwl am sgiliau iaith Gymraeg eu staff.

**Rhai o'r pethau y gwnaethom ni eu cyflawni oedd:**



- Helpu i wella'r ffordd y mae gwybodaeth am ofal cymdeithasol yn cael ei gasglu.




- Cefnogi grŵp sy'n cael ei alw'n Grŵp Cefnogi'r Gweinidog ar Ofalwyr.



- Gwneud ymchwil er mwyn deall sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio faint o staff sydd arnyn nhw eu hangen i helpu pobl.



- Cefnogi gwaith sy'n helpu i wella **llesiant** cymunedau lleol yng Nghymru.




- Dechrau prosiect i gefnogi cyflogwyr i feddwl am yr iaith Gymraeg yn eu gwasanaethau.



- Trefnu arolwg o rai rhannau o'n gwaith.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, gwnaethom ni:**



- Drafod pa mor bwysig ydy dod o hyd i weithwyr cymdeithasol o wledydd eraill.



**Ar gyfer y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, gwnaethom ni:**

- Gefnogi gwaith i wneud yn siŵr bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu talu'n deg.

**Ar gyfer y cynllun gweithlu strategol iechyd meddwl, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru gwnaethom ni:**



- Roi arian i bobl i gael eu hyfforddi fel **Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP)**. Mae hwn yn hyfforddiant sy'n caniatáu i bobl roi rhannau o'r ddeddf sy'n cael ei alw'n Ddeddf Iechyd Meddwl ar waith.

# Beth sy’n digwydd nesaf

Dyma rai o’r pethau y byddwn ni’n gweithio arnyn nhw rhwng 2024 a 2025.



- Dysgu mwy am asiantaethau gofal a’r problemau maen nhw’n eu hwynebu. A’u cefnogi.



- Gwneud cynlluniau ar gyfer dysgu ar ôl i weithwyr cymdeithasol gymhwyso.




- Rhoi hyfforddiant cynllunio’r gweithlu i adrannau gwasanaethau cymdeithasol.



- Cefnogi ffyrdd o helpu pobl i ddatblygu yn eu gyrfaoedd a’u dysgu.



- Deall sut y mae pobl yn defnyddio technoleg yn eu gwaith a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.




Mae arnon ni eisiau dal ati i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein nodau o wella iechyd a gofal cymdeithasol.




I gael mwy o wybodaeth ynghylch beth sydd nesaf ar gyfer ein cynlluniau edrychwch ar ein gwefan: [Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027]

# Geiriau anodd

### Ail-alluogi

Mae ailalluogi yn ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu sgiliau i fod yn annibynnol. Weithiau efallai bod pobl wedi colli rhai sgiliau oherwydd newid yn eu hiechyd.

### Bwrsari

Bwrsari ydy arian i helpu pobl â chostau gwneud cymhwyster.

### Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae deallusrwydd artiffisial yn meddwl cyfrifiaduron yn gwneud pethau cymhleth nad oedd neb ond pobl yn medru eu gwneud o'r blaen.

### Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a'r pethau maen nhw'n eu gwneud.

### Prentisiaethau

Prentisiaethau ydy pan fydd rhywun yn dysgu wrth wneud y gwaith ac wedyn yn cael cymhwyster.